Clerc y Pwyllgor
Y Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth
Tŷ'r Arglwyddi
Llundain
SW1A 0PW

14 Ionawr 2019

Annwyl Glerc y Pwyllgor

Rheoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2018

Fel rhan o'i pharatoadau ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd, mae Llywodraeth Cymru wedi cydsynio i Lywodraeth y DU wneud llawer o offerynnau statudol at ddibenion cywiro diffygion (tua 150 ohonynt) o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (y Ddeddf Ymadael) ar ran Llywodraeth Cymru. Gallai Llywodraeth Cymru wneud yr offerynnau statudol hyn o dan y Ddeddf Ymadael, ond mae wedi dewis caniatáu i Lywodraeth y DU eu gwneud ar ei rhan (yn unol â'r Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin).

Yn achos pob un o'r offerynnau statudol, bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r Cynulliad, gan roi manylion cryno'r offeryn statudol dan sylw. Mae mater penodol wedi codi mewn perthynas â hysbysiad Llywodraeth Cymru yn ymwneud â Rheoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2018 (Rheoliadau PBR). Cafodd y mater ei grynhoi gan Lywodraeth Cymru fel a ganlyn yn ei hysbysiad:

" Mae'r rheoliadau hyn yn rhoi swyddogaethau i'r Rheolwr Hawliau Amrywogaethau Planhigion, sef swyddog a sefydlwyd gan Ddeddf Amrywogaethau

Planhigion 1997 yn bennaeth ar y Swyddfa Hawliau Rhywogaethau Planhigion. Mae’r Rheolwr yn gweithredu o dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban ac Adran Gogledd Iwerddon ar y cyd, ac fe’i penodir ganddynt hwy hefyd.

Byddai swyddogaethau a drosglwyddir i awdurdod cyhoeddus ac eithrio awdurdod datganoledig Cymreig yn golygu bod paragraff 10 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gymwys. Mae'n bosibl, felly, fod hynny’n ystyriaeth berthnasol yng nghyd-destun cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu yn y meysydd hyn yn y dyfodol.”

O dan baragraff 10 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ni all y Cynulliad ddileu nac addasu unrhyw swyddogaethau awdurdod cyhoeddus (ac eithrio swyddogaethau awdurdod Cymreig datganoledig neu'r swyddogaethau hynny sydd wedi’u cynnwys yn yr eithriadau ym mharagraff 9 o Atodlen 7B, ac nid oes yr un o’r rhain yn berthnasol yn yr achos hwn) oni bai bod y Gweinidog priodol yn Llywodraeth y DU yn ei ganiatáu. Felly, drwy roi swyddogaethau ar Reolwr Hawliau Amrywogaethau Planhigion (awdurdod Cymreig sydd heb ei ddatganoli), mae Rheoliadau PBR yn cyfyngu ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i basio deddfwriaeth sylfaenol, er mai maes cyfyng iawn sydd dan sylw. Er enghraifft, pe bai'r Cynulliad yn dymuno pasio Bil i ddileu neu i addasu’r swyddogaethau a roddwyd i Reolwr Hawliau Amrywiaeth Planhigion o dan Reoliadau PBR, yna ni allai'r Cynulliad wneud hynny heb ganiatâd Llywodraeth y DU.

Rydym yn derbyn mai mater i lywodraethau, yn gyffredinol, yw is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, o ystyried yr effaith a gaiff Rheoliadau PBR ar y ddeddfwrfa hon, roeddem am ddwyn y mater i'ch sylw. Gellir crynhoi’r mater yn syml fel hyn: mae Llywodraeth Cymru wedi cydsynio i Lywodraeth y DU wneud offeryn statudol o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol sy'n cyfyngu ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Rydym hefyd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru, gan leisio'n pryder ynghylch effaith Rheoliadau PBR a'n siom na chafodd y Cynulliad wybod amdanynt hyd yn oed.

Yn gywir

Mick Antoniw
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.